Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 965 (Cy.139)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (Swyddogaethau Atodol) 2011

Gwnaed - - - -	*28 Mawrth 2011*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*29 Mawrth 2011*
Yn dod i rym - -	*19 Ebrill 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 69(5) ac 89(4) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (Swyddogaethau Atodol) 2011 a daw i rym ar 19 Ebrill 2011.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

(a) ystyr "Rheoliadau 2011" ("*the 2011 Regulations*") yw Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) 2011(**3**); a

(b) mae i "grant ffioedd newydd" ("*new fee grant*") yr ystyr a roddir iddo gan reoliad 2(1) o Reoliadau 2011.

Swyddogaethau Atodol

2. Mae'r swyddogaethau a ganlyn, sef swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan Reoliadau 2011(**4**), wedi eu rhoi i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru(**5**)—

(**1**) 1992 p.13; diwygiwyd adran 89(4) gan Ddeddf Addysg Bellach a Hyfforddi 2007 (p.25), adran 26 ac Atodlen 1, paragraff 11.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 69(5), i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) — gweler y cyfeiriad at Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hynny'n arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(**3**) O.S. 2011/886 (Cy.130).

(**4**) Mae adran 69(6) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn disgrifio'r amgylchiadau pan fo swyddogaeth yn swyddogaeth atodol o ran y Cyngor Cyllido.

(**5**) A sefydlwyd gan adran 62 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

(a) swyddogaethau yn ymwneud â thalu grant ffioedd newydd o dan reoliad 65 o Reoliadau 2011;

(b) swyddogaethau yn ymwneud ag adennill gordalu'r grant ffioedd newydd o dan reoliad 70 o Reoliadau 2011; ac

(c) swyddogaethau yn ymwneud â gwneud cais am wybodaeth o dan Atodlen 3 i Reoliadau 2011 a chael yr wybodaeth honno, i'r graddau y mae'r swyddogaethau hynny yn ymwneud â thalu neu adennill grant ffioedd newydd.

3. Nid oes dim yn y Gorchymyn hwn yn atal Gweinidogion Cymru rhag arfer y swyddogaethau a ddisgrifir yn erthygl 2.

Leighton Andrews
Y Gweinidog dros Blant, Addysg, a Dysgu
Gydol Oes, un o Weinidogion Cymru

28 Mawrth 2011

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae adran 69(5) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, roi unrhyw swyddogaethau atodol yn ymwneud â darparu addysg sydd yn eu barn hwy yn briodol i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru neu osod y swyddogaethau atodol hynny arno.

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi swyddogaethau atodol i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Mae'r swyddogaethau a roddir gan y Gorchymyn hwn yn swyddogaethau y caiff Gweinidogion Cymru eu harfer mewn rheoliadau a wneir o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 sy'n ymwneud â thalu grant ffioedd dysgu i sefydliadau addysg uwch (ac adennill y grant hwnnw) mewn perthynas â myfyrwyr sy'n dechrau cyrsiau addysg uwch dynodedig ar 1 Medi 2012 neu ar ôl hynny.